



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil Drafft Cynllunio (Cymru) a Nodiadau Esboniadol



Mehfin 2025

“A thrwy gyngor a chytundeb y doethion
a ddaeth yno, archwiliwyd yr hen gyfreithiau,
gadawyd rhai ohonynt i barhau, diwygiwyd
eraill, a dilöwyd eraill yn gyfan gwbl,
a gosodwyd rhai eraill o’r newydd.”

Llyfr Iorwerth 1240

Y Bil

1. Diben y Bil Cynllunio (Cymru) ('y Bil Cynllunio') yw cydgrynhoi deddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio yng Nghymru. Yr hyn a olygir wrth gydgrynhoi yw dwyn ynghyd y cyfan neu'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth (sylfaenol, gan amlaf) ar bwnc penodol fel ei bod yn hawdd dod o hyd iddi, a moderneiddio ffurf y gyfraith a'r modd y caiff ei drafftio er mwyn ei gwneud yn haws ei deall a'i chymhwyso. Yn aml, wrth gydgrynhoi deddfwriaeth, mae nifer o Ddeddfau sy'n bodoli eisoes ar bwnc yn cael eu dwyn ynghyd, gan ddiweddarau a chysoni'r darpariaethau, er mwyn creu un Ddeddf newydd yn y pen draw.
2. Rydym yn esbonio mwy isod o ran pam mae'r fersiwn hon o'r Bil Cynllunio yn edrych fel y mae. Ond mae'n bwysig cofio y gallai Bil cydgrynhoi arwain at ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n edrych yn wahanol iawn i'r testun gwreiddiol – dyna'r sefyllfa gyda'r Bil hwn yn benodol. Er mwyn cyflwyno'r gyfraith bresennol sy'n gymwys yng Nghymru ar ffurf fodern a hygyrch, mae'r Senedd yn caniatáu newidiadau sylweddol o ran cyflwyniad nad ydynt yn newid effaith y gyfraith dan sylw.
3. Mae rheolau'r Senedd ar y graddau cyfyngedig y caiff Bil cydgrynhoi gynnig newidiadau i'r gyfraith wedi'u nodi yn ei Rheolau Sefydlog (gweler Rheol Sefydlog 26C.2 yn benodol). Mae'r Llywydd wedi cyhoeddi canllawiau¹ ar Reol Sefydlog 26C.2, ynghyd â'r hyn y mae'r rheolau hynny'n ei olygu yn ymarferol.

Diben cyhoeddi

4. Mae'r Bil Cynllunio yn cael ei gyhoeddi ar y ffurf hon cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Senedd i helpu Aelodau o'r Senedd, y rhai sy'n ymwneud â'r system gynllunio yng Nghymru ac eraill sydd â diddordeb mewn cyfraith gynllunio i ddechrau dod yn gyfarwydd â ffurf a strwythur arfaethedig y Bil.
5. Mae'n bwysig nodi **nad** y Bil Cynllunio sy'n cael ei gyhoeddi nawr yw fersiwn derfynol y ddeddfwriaeth. Mae'r rhesymau dros hyn fel a ganlyn:
 - a. Mae'n ddrafft sy'n dal i gael ei gwblhau, er ein bod yn disgwyl i'r Bil a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Senedd gynnwys y rhan fwyaf (os nad pob un) o'r adrannau ac Atodlenni'r drafft hwn ac i'r fersiwn derfynol honno fod yn nhrefn y drafft hwn.
 - b. Hyd yn oed pan fydd y Bil yn cael ei gyflwyno, mae'n fater i'r Senedd benderfynu a yw'n cytuno y dylid pasio'r Bil a'i ddeddfu yn y pen draw. Fel rhan o'r broses honno, gall y Senedd ddewis gwneud gwelliannau i'r Bil.
6. Nid yw cyhoeddi'r drafft hwn o'r Bil Cynllunio wedi'i fwriadu i ddisodli gwaith craffu ffurfiol ar y cynigion: bydd hynny'n fater i'r Senedd. Os hoffech ddysgu mwy am sut

¹ [Canllawiau i ategu'r drefn o weithredu Rheol Sefydlog 26C ar Ffiliau Cydgrynhoi: Cyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26C.3 ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes](#)

mae'r gwaith craffu hwnnw'n digwydd a sut y gallwch gyfrannu, cysylltwch â cydgrynhoicynllunio@llyw.cymru

Cyflwyno gerbron y Senedd

Dyddiad cyflwyno tebygol

7. Ar hyn o bryd bwriedir y bydd y Bil Cynllunio yn cael ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Medi 2025.

Bil cysylltiedig a dogfennau ategol

8. Pan fydd y Bil yn cael ei gyflwyno, bydd y Llywodraeth hefyd yn cyflwyno ail Fil: y Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru). Diben yr ail Fil yw diwygio a diddymu deddfiadau, a gwneud darpariaethau trosiannol ac arbed, mewn cysylltiad â'r 'prif' Fil Cynllunio.
9. Yn aml, ymdrinnir â darpariaethau canlyniadol a throsiannol o'r fath mewn un Atodlen i Fil neu fwy. Fodd bynnag, o ystyried bod gan y darpariaethau naill ai oes gyfyngedig yn ymarferol neu y byddant o ddiddordeb cyfyngedig iawn i'r rhan fwyaf o ddarlennwyr cyfraith cynllunio, bydd eu gosod mewn Bil ar wahân yn sicrhau nad yw'r darpariaethau o sylwedd (a'r rhai a ddefnyddir amlaf) yn y prif Fil Cynllunio yn cynnwys Atodlenni hirfaith o ddarpariaethau canlyniadol a throsiannol. Nid yw'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) yn cael ei gyhoeddi nawr, gan ei fod yn dal i gael ei baratoi.
10. Fodd bynnag, bydd y ddau Fil yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol gyda'i gilydd fel y gellir eu hystyried ar yr un pryd, a bydd Memorandwm Esboniadol yn cyd-fynd â nhw a fydd yn darparu gwybodaeth am y ddau Fil.
11. Mae'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodol gael ei chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol i Fil sy'n cydgrynhoi'r gyfraith – gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y gofynion hynny yn Rheol Sefydlog 26C y Senedd.² Fodd bynnag, bydd y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil Cynllunio a'r Bil Darpariaethau Canlyniadol yn cynnwys:
 - a. set o Nodiadau Esboniadol i'r ddau Fil;
 - b. tabl sy'n esbonio tarddiad pob darpariaeth yn y Biliau; ac
 - c. tabl sy'n esbonio lle mae darpariaethau yn y ddeddfwriaeth bresennol bellach yn y Biliau.

Ceir rhagor o wybodaeth am bob un o'r rhain isod.

12. Bydd y Memorandwm Esboniadol hefyd yn cynnwys set o "Nodiadau'r Drafftwy'r". Mae'r rhain yn cael eu paratoi gan y tîm o gyfreithwyr arbenigol sydd wedi drafftio'r Bil ac yn

² Ar gael yn: [Rheolau Sefydlog Senedd Cymru](#)

esbonio i ba raddau y mae'r ddeddfwriaeth bresennol wedi'i newid fel rhan o'r broses gydgrynhoi. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r ar gyfer y Bil Cynllunio yn dal i gael eu paratoi ac nid ydynt yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil ar hyn o bryd.

Amserlen ar gyfer ystyried y Bil gan y Senedd

13. Mater i Bwyllgor Busnes y Senedd yw hwn. Bydd y Pwyllgor hwnnw yn penderfynu ar amserlen y Bil yn agosach at gyflwyno a bydd yn cyhoeddi'r wybodaeth honno ar wefan y Senedd.
14. Os bydd y Senedd yn pasio'r Bil a'i fod yn cael ei ddeddfu wedi hynny, mater i'r Llywodraeth fydd penderfynu pryd y daw'r Ddeddf (erbyn hynny) i rym. Bydd canllawiau a gwybodaeth bellach i gefnogi cychwyn yn cael eu cyhoeddi os bydd y Senedd yn pasio'r Bil.

Deall fformat y Bil

15. Fel yr eglurwyd uchod, gall cydgrynhoi'r gyfraith bresennol i destun dwyieithog newydd, modern a mwy hygyrch arwain at destun sydd wedi'i osod allan yn wahanol iawn i'r ddeddfwriaeth "wreiddiol" (ac yn yr achos hwn, mae'n gwneud hynny). Yn ogystal â hynny, mae'r fersiwn hon o'r Bil hefyd yn cynnwys rhai gwahaniaethau o ran fformatio i'r Bil a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Senedd. Mae'r rhain yn cael eu hegluro isod.

"rhifau j"

16. Pan fydd Bil yn cael ei baratoi, mae'r drafftwy'r yn dyrannu dynodydd unigryw (a elwir yn "rhif j") i bob adran ac Atodlen. Mae rhif j darpariaeth yn aros yr un fath trwy gydol y broses ddrafftio, er bod ei leoliad yn y Bil yn gallu newid. Mae defnyddio rhifau j yn ei gwneud hi'n haws adnabod darpariaethau a gwneud croesgyfeiriadau atynt nes bod trefn y darpariaethau yn y Bil wedi'i setlo.
17. Pan fydd y fersiwn derfynol o'r Bil yn cael ei pharatoi i'w chyflwyno i'r Senedd, mae'r rhifau j yn cael eu dileu a, lle bo angen, yn cael eu disodli gan rifau terfynol yr adrannau a'r Atodlenni. Gan nad yw'r fersiwn derfynol o'r Bil Cynllunio wedi'i setlo eto, mae rhifau'r adrannau a'r Atodlenni yn y Bil hwn yn dal i fod yn rhai dros dro. Felly, am y tro, mae'r fersiwn hon o'r Bil yn dal i gynnwys rhifau j. Mae'r rhain yn cael eu dangos mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd enwau adrannau ac o fewn y testun mewn llawer o'r manau lle mae croesgyfeirio awtomatig yn cael ei ddefnyddio.
18. Mae Atodiad A (yn y ddogfen hon) yn darparu rhestr o rifau j yn 'y drefn wrthol' – mae'n dangos y rhifau j mewn trefn alffa-rifol gyda rhif dros dro cyfatebol yr adran/Atodlen a'r enw. Mae'r atodiad hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu i lywio'r Bil, yn enwedig wrth gyfeirio at groesgyfeiriadau o fewn darpariaethau.

Tarddiadau darpariaethau

19. Pan gyflwynir y Bil Cynllunio, bydd y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys tabl "tarddiadau".³ Bydd hwn yn rhestru darpariaethau'r Bil mewn trefn ac yn dangos tarddiadau pob un ohonynt – hynny yw, y deddfiad (a'r ddarpariaeth/darpariaethau yn y deddfiad hwnnw) y mae darpariaethau'r Bil Cynllunio yn tarddu ohono.
20. Mae tabl tarddiadau'r Bil Cynllunio yn dal i gael ei gwblhau ond cyhoeddir fersiwn ddrafft gyfredol o'r tabl hwn ochr yn ochr â'r Bil.
21. Bydd "tabl trawsleoli" cyfatebol yn cael ei lunio ar gyfer cyflwyno'r Bil. Bydd hwn yn rhestru'r deddfiadau a ddisodlwyd gan y Bil Cynllunio mewn trefn gronolegol ac yn dangos sut y bydd y cydgrynhoi yn eu trin. Mae'r tabl hwn yn dal i gael ei baratoi, ac nid oes drafft wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon.

"Cydbwyso" y Bil

22. Un o'r gofynion ar gyfer cyflwyno Bil i'r Senedd yw bod yn rhaid iddo fod ar "ffurf briodol".⁴ Fel rhan o hyn, rhaid i bob tudalen o fersiwn Gymraeg a Saesneg Bil ddechrau a gorffen gyda darpariaeth o'r un rhif neu lythyren, yn yr un lle yn y testun.⁵ Cyfeirir at hyn, yn anffurfiol, fel "cydbwyso" y Bil.
23. Nid yw'r fersiwn hon o'r Bil wedi'i chydbwyso eto, gan fod hyn yn rhywbeth sy'n cael ei wneud dim ond pan fydd y fersiwn derfynol yn cael ei pharatoi. O ganlyniad, mae cyfanswm nifer y tudalennau yn y ddau destun yn wahanol ar hyn o bryd.

Nodiadau Esboniadol i'r Bil Cynllunio

24. Ochr yn ochr â'r fersiwn hon o'r Bil Cynllunio, rydym hefyd wedi cyhoeddi set ddrafft o Nodiadau Esboniadol. Nid yw Nodiadau o'r fath wedi'u bwriadu i fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o gynnwys y Bil ond maent wedi'u bwriadu i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall ei ddarpariaethau.
25. Mae'r fersiwn derfynol o'r Nodiadau yn cael ei pharatoi, ond mae'r fersiwn ddrafft gyfredol yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil Cynllunio i gynorthwyo'r darllenydd. Fe welwch fod y Nodiadau yn defnyddio rhifau j yn hytrach na rhifau adrannau neu Atodlenni – bydd y rhain yn cael eu disodli yn y fersiwn derfynol ar gyfer cyflwyno. Bydd y cromfachau sgwâr yn y ddogfen hefyd, ar y cyfan, yn cael eu dileu ar gyfer cyflwyno. Maent yn aros yn y fersiwn ddrafft hon o'r Nodiadau i sicrhau bod modd gwirio croesyfeiriadau fel rhan o'r broses gynhyrchu derfynol.

³ Gellir gweld enghraifft o "tabl tarddiadau" ar gyfer Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn: [asctoo_20230003_we_001.pdf](#).

⁴ Mae'r set lawn o ofynion ar gael yn: [Penderfyniad y Llywydd o ran y Ffurf Briodol](#)

⁵ Yr eithriad yw amgylchiadau lle bydd darpariaeth yn rhestru diffiniadau yn ôl yr wyddor, gan arwain at wahaniaethau o ran trefn y testun Cymraeg a Saesneg

Gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â chydgrynhai cyfraith gynllunio

26. Oherwydd nad yw'r holl ddogfennau a fydd yn cyd-fynd â'r Biliau yn cael eu cyhoeddi gyda'r fersiwn hon, bwriad yr wybodaeth a ganlyn yw esbonio agweddau penodol ar y Bil (neu'r Nodiadau Esboniadol).
27. Os bydd y Senedd yn pasio'r Bil a'i fod yn cael ei ddeddfu, bydd canllawiau yn cael eu llunio i helpu'r rhai sydd â diddordeb mewn cyfraith gynllunio yng Nghymru i baratoi ar gyfer y Ddeddf yn dod i rym.

Effaith y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

28. Mae'r Senedd newydd basio'r Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru). Ymhlith materion eraill, mae'r Bil hwnnw, yn ei dro, yn diwygio Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 drwy fewnosod Rhannau newydd sy'n ymwneud â llunio a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru. Mae'r fersiwn o'r Bil Cynllunio sy'n cael ei chyhoeddi nawr yn adlewyrchu gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer craffu ar offerynnau statudol Cymreig fel y nodir yn Neddf 2019.

Argymhellion Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr

29. Cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith adolygiad manwl o gyfraith gynllunio yng Nghymru, gan arwain at eu hadroddiad, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*.⁶ Nododd yr adroddiad hwn y cwmpas a argymhellir o ran cydgrynhai cyfraith gynllunio a gwnaeth 192 o argymhellion manwl i gefnogi'r gwaith hwnnw. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny ym mis Tachwedd 2020⁷. Mae'r ddwy ddogfen wedi cael eu defnyddio i lywio proses ddatblygu'r Bil Cynllunio.
30. Mae Comisiwn y Gyfraith hefyd wedi gwneud nifer o argymhellion pellach mewn gohebiaeth â Gweinidogion Cymru. Bydd yr ohebiaeth bellach honno yn cael ei chyhoeddi gyda'r Biliau wrth eu cyflwyno i'r Senedd.
31. Mae'r tabl tarddiadau yn cynnwys cyfeiriad at argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

Materion cynllunio – meysydd o ddiddordeb allweddol

Diffiniad o "datblygiad"

32. Mae'r diffiniad o "datblygiad" wrth wraidd y system gynllunio ac felly fe'i ceir yn Rhan 1 o'r Bil Cynllunio. Mae'r diffiniad hwnnw, sydd ar hyn o bryd yn adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ("Deddf 1990"), yn parhau i fod heb ei newid i raddau helaeth.

⁶ Gweler: [\[CYNNWYS WEDI'I ARCHIFO\] Cyfraith Cynllunio yng Nghymru - Comisiwn y Gyfraith](#)

⁷ Gweler: [ymateb-manwl-llywodraeth-cymru-i-adroddiad-comisiwn-y-gyfraith-ar-gyfraith-cynllunio-yng-nghymru-tabl-tachwedd-2020.pdf](#)

Fodd bynnag, mae'n cael ei ailddatgan mewn fformat modern, wedi'i rannu'n bedair adran a'i newid i roi effaith i argymhellion 7-1 a 7-2 Comisiwn y Gyfraith.

33. Mae adran 3 [j401] yn darparu'r diffiniad cyffredinol yn adran 3(2) [j401(2)] (a gweler paragraffau 19 i 23 o'r Nodiadau Esboniadol), sy'n nodi dwy agwedd ar ddatblygiad:
- cynnal gweithrediadau ar dir – hynny yw, gwneud newidiadau ffisegol i dir (gan gynnwys adeiladau); a
 - gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y defnyddir tir ac adeiladau.

Dylid nodi bod gweithrediadau "ar" dir yn cynnwys gweithrediadau yn y tir, o dan y tir neu dros y tir, sydd felly'n parhau o fewn cwmpas "datblygiad", yn rhinwedd yr adran ddehongli gyffredinol ar gyfer y Bil (gweler adran 408(2) [j001(2)]).

34. Mae adran 4 [j478] yn diffinio "gweithrediadau", "gweithrediadau adeiladu", "gweithrediadau peirianeg", a "gweithrediadau mwyngloddio" (gweler paragraffau 24 i 29 o'r Nodiadau Esboniadol). Er mwyn rhoi effaith i argymhelliad 7-1 Comisiwn y Gyfraith, nid yw pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo nad yw rhai categorïau o ddymchwel yn ddatblygiad wedi'i ailddatgan. Os bydd y Senedd yn pasio'r Bil, bydd y cyfarwyddyd cyfredol⁸ yn cael ei ganslo, a bydd Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir") yn cael ei ddiwygio⁹. Bydd peidio ag ailddatgan y pŵer i wneud cyfarwyddydau, ynghyd â diwygiadau i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, yn sicrhau bod y system gynllunio yn trin dymchwel adeilad yn gyson, trwy ddarparu bod dymchwel yn ddatblygiad ond yn rhoi caniatâd cynllunio o dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir.
35. Mae adran 5 [j479] yn darparu bod defnyddiau penodol o dir yn golygu newid sylweddol mewn defnydd ac felly'n ddatblygiad (gweler paragraffau 30 i 33 o'r Nodiadau Esboniadol).
36. Mae adran 6 [j480] yn rhoi effaith i argymhelliad 7-2 Comisiwn y Gyfraith, gan symleiddio'r sefyllfa bresennol, trwy ddarparu bod unrhyw waith i gynyddu arwynebedd gros llawr mewnol adeilad yn ddatblygiad. Gweler paragraffau 34 i 44 o'r Nodiadau Esboniadol, ac yn benodol mae paragraff 36 o'r Nodiadau yn egluro y bydd y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn cael ei ddiwygio i ganiatáu gwaith o'r fath mewn achosion penodol. Bydd hyn yn cadw'r sefyllfa mai dim ond ar gyfer gwaith penodol sy'n effeithio ar y tu mewn i adeilad y mae angen cais cynllunio.

[Apêl gorfodi cynllunio - cais tybiedig o dan sail \(a\)](#)

⁸ Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Dymchwel – Disgrifiad o Adeiladau) 1995

⁹ Ym mis Mai 2018 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ganslo'r cyfarwyddyd dymchwel presennol a darparu'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer categorïau penodol o ddymchwel fel rhan o ddiwygiadau yn y dyfodol i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

37. Mae Deddf 1990 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n "barnu" bod pethau wedi cael eu gwneud. Mae'r rhain yn cyflwyno cymhlethdod diangen, ac nid yw'r dull hwn wedi'i ddilyn yn y Bil Cynllunio.
38. Er enghraifft, pan wneir apêl i Weinidogion Cymru yn erbyn hysbysiad gorfodi ar sail (a) yn adran 174(2)(a) o Ddeddf 1990 (y dylid rhoi caniatâd cynllunio, neu, yn ôl y digwydd, y dylid cyflawni'r amod neu'r cyfyngiad dan sylw), mae adran 177(5) o Ddeddf 1990 yn darparu y "bernir" bod cais cynllunio wedi cael ei wneud. Fodd bynnag, gan fod gan Weinidogion Cymru eisoes y pŵer i roi caniatâd cynllunio wrth benderfynu ar apêl, o dan adran 177(1)(a) o Ddeddf 1990, mae'r cysyniad o wneud cais "tybiedig" yn ddiangen. Nid yw'r Bil yn ailddatgan adran 177(5) a (6) o Ddeddf 1990; yn hytrach, mae adran 131(2)(a) [j518(2)(a)] o'r Bil yn cadw pŵer Gweinidogion Cymru i roi caniatâd cynllunio mewn ymateb i apêl ar sail (a). Nid yw'r dull hwn yn newid cymhwysiad ymarferol y pwerau perthnasol, ond bydd yn symleiddio'r gyfraith er mwyn gwella ei heglurder, (gweler paragraffau 695 i 699 o'r Nodiadau Esboniadol). Mae'r dull a ddefnyddir yn cael ei gefnogi gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei waith ar *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*¹⁰.

Terminoleg

39. Wrth gydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol, gwnaed pob ymdrech i fynegi cysyniadau cyfreithiol mewn iaith sy'n hygyrch ac yn ddealladwy – yn unol ag arferion drafftio presennol – ac sy'n adlewyrchu arferion gweithredol presennol. Weithiau mae hon wedi bod yn dasg heriol ac wedi golygu disodli rhai termau hirsefydledig a fabwysiadwyd yn wreiddiol mewn deddfwriaeth gynharach, a wnaed yn aml yn Saesneg yn unig.
40. Er enghraifft, er mwyn rhoi effaith i argymhelliad Comisiwn y Gyfraith 5-2(1) mae "material considerations" i ddod yn "relevant considerations" ("ystyriaethau perthnasol"). Ac i roi effaith i argymhelliad Comisiwn y Gyfraith 5-13 mae "local planning authorities" a "minerals planning authorities" yn syml yn dod yn "planning authorities" ("awdurdodau cynllunio").
41. Yn yr un modd, mae newidiadau wedi'u gwneud i enwau hysbysiadau a gorchmynion penodol, er mwyn gwella eglurder cyfreithiol a gwella hygyrchedd. Mae'r rhain yn cynnwys:
- cyfeirir at "completion notices" (adran 94 o Ddeddf 1990) bellach fel "termination orders" ("gorchmynion terfynu") (adran 98 [j461] o'r Bil);
 - bydd "planning contravention notices" (adran 171C o Ddeddf 1990) yn cael eu hailenwi'n "enforcement investigation notices" ("hysbysiadau ymchwilio am orfodi") (adran 114 [j503] o'r Bil);
 - bydd "section 215 notices" (adran 215 o Ddeddf 1990) yn dod yn "maintenance of land notices" ("hysbysiadau cynnal a chadw tir") (adran 214 [j871] o'r Bil);
 - bydd "section 330 notices" (adran 330 o Ddeddf 1990) yn dod yn "information notices" ("hysbysiadau gwybodaeth") (adran 383 [j2601] o'r Bil); a

¹⁰ Gweler argymhellion 12-12 o *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* (2018).

- bydd “suspension orders” a “supplementary suspension orders” (Atodlen 9 i Ddeddf 1990) ill dau yn dod yn “protection orders” (“gorchmynion diogelu”) (Atodlen 15 [470C] i’r Bil).

Diogelu coed a choetiroedd

42. Bydd y Bil Cynllunio yn cynnwys y system newydd ar gyfer diogelu coed a choetiroedd a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008, ond nad yw wedi’i dwyn i rym yng Nghymru eto. Mae hyn yn symleiddio’r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchmynion a chynnal gwaith, gan gadw’r lefel ddiogelu bresennol. Bydd angen set newydd o reoliadau sy’n cael eu datblygu ar hyn o bryd¹¹; disgwylir y bydd y rhain yn dod i rym ar yr un pryd â darpariaethau perthnasol yn y Bil os yw’n cael ei basio gan y Senedd.

Mwynau a gwastraff

43. Mae’r gyfraith sy’n ymwneud â rheoleiddio gweithrediadau mwynloddio a gwaredu gwastraff wedi’i gwasgaru hyd yn hyn ar draws nifer o Ddeddfau a Rheoliadau, gan gynnwys Deddf 1990, Deddf Cynllunio a Digolledu 1991 a Deddf yr Amgylchedd 1995. Mae hefyd wedi’i nodi trwy nifer o addasiadau i Ddeddf 1990 a wnaed gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) 1995 sy’n ychwanegu mwy o gymhlethdod. Mae’r Bil yn dod â’r holl ddarpariaethau hyn ynghyd mewn un lle ac yn eu nodi’n llawn, gan gydnabod bod y mesurau sy’n ymwneud â’r mathau hyn o ddatblygiad yn enghreifftiau penodol o reolaeth gynllunio gyffredinol. Bydd hyn yn arwain at ddeddfwriaeth gliriach sy’n haws i’w llywio ac yn fwy hygyrch. Mae’r Bil felly yn cynnwys Atodlenni sy’n gwneud darpariaeth ynghylch amodau sy’n ymwneud â gweithrediadau mwynau a dyddodi gwastraff, amodau sy’n cyfyngu ar hyd caniatadau mwynau, caniatadau mwynau sy’n ymwneud â safleoedd segur, adolygiad cyfnodol o ganiatadau o’r fath, gwneud gorchmynion gwahardd a diogelu a digollediad am newidiadau i ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau mwynau. Ond nid yw’n ailddatgan darpariaethau sydd wedi peidio â chael effaith, megis yr angen i gofrestru caniatadau erbyn dyddiadau sydd bellach wedi hen fynd heibio.

¹¹ Ceir rhagor o wybodaeth am y cynigion yma: [Cadw coed a choedwigoedd: rheoliadau newydd \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#).

Atodiad A – rhifau j (yn nhrefn y rhifau)

Gweler paragraff 18 o'r ddogfen hon am esboniad pellach.

Rhif j	Rhan o'r Bil	Adran neu Atodlen	Enw'r adran neu'r Atodlen
j001	Rhan 15	Adran 408	Dehongli
j101	Rhan 15	Adran 396	Ffurf ar ddogfennau awdurdod lleol
j102	Rhan 14	Adran 360	Ffioedd a thaliadau am arfer swyddogaethau gan awdurdodau cynllunio
j103	Rhan 15	Adran 395	Cyfraniadau tuag at gostau yr eir iddynt gan awdurdodau
j104	Rhan 14	Adran 364	Ffioedd a thaliadau am geisiadau ac apelau i Weinidogion Cymru
j105	Rhan 14	Adran 365	Penderfynu apêl gan arolygydd
J105s	Atodlen	Atodlen 20	Penderfynu apelau gan arolygwyr neu Weinidogion Cymru
j106	Rhan 14	Adran 366	Dewis o ymchwiliad, gwrandawriad neu weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer apelau a cheisiadau
j107	Rhan 14	Adran 367	Gofynion gweithdrefnol ar gyfer apelau, ceisiadau ac achosion eraill
j108	Rhan 14	Adran 368	Pŵer Gweinidogion Cymru i gynnal ymchwiliad lleol
j109	Rhan 14	Adran 369	Pŵer person sy'n cynnal ymchwiliad i wneud tystiolaeth yn ofynnol
j110	Rhan 14	Adran 370	Mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad
j111	Rhan 14	Adran 371	Talu cynrychiolydd a benodir pan fo mynediad i dystiolaeth wedi ei gyfyngu
j112	Rhan 14	Adran 372	Talu costau Gweinidogion Cymru
j113	Rhan 14	Adran 373	Gorchmynion sy'n ymwneud â chostau partion
j201	Rhan 1	Adran 7	Yr awdurdod cynllunio ar gyfer ardal
j202	Rhan 1	Adran 8	Pŵer i ddynodi ardal gydgyllunio a sefydlu bwrdd cydgyllunio
j203	Rhan 1	Adran 9	Ardaloedd cydgyllunio a Pharciau Cenedlaethol
j211	Rhan 14	Adran 361	Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu harfer gan bwyllgorau, is-bwyllgorau neu swyddogion
j212	Rhan 14	Adran 362	Maint a chyfansoddiad pwyllgorau sydd i arfer swyddogaethau
j213	Rhan 14	Adran 363	Trefniadau ar gyfer arfer swyddogaethau: atodol
j301	Rhan 2	Adran 10	Ystyr "y cynllun datblygu" ar gyfer ardal
j302	Rhan 2	Adran 12	Dyletswydd i lunio a chyhoeddi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
j303	Rhan 2	Adran 13	Llunio'r Fframwaith: datganiad o gyfranogiad y cyhoedd
j304	Rhan 2	Adran 14	Y weithdrefn ar gyfer llunio a chyhoeddi'r Fframwaith
j305	Rhan 2	Adran 15	Adolygu a diwygio'r Fframwaith
j306	Rhan 2	Adran 16	Arolwg o ardal cyd-bwyllgor corfforedig
j307	Rhan 2	Adran 17	Dyletswydd i lunio cynllun datblygu strategol
j308	Rhan 2	Adran 18	Arolwg o ardal awdurdod cynllunio
j309	Rhan 2	Adran 19	Dyletswydd i lunio cynllun datblygu lleol
j310	Rhan 2	Adran 20	Ystyr "awdurdod sy'n gwneud cynllun" a "cynllun"
j311	Rhan 2	Adran 21	Llunio cynllun: y weithdrefn a'r cytundeb cyflawni

Rhif j	Rhan o'r Bil	Adran neu Atodlen	Enw'r adran neu'r Atodlen
j312	Rhan 2	Adran 22	Arfarniad o gynaliadwyedd
j313	Rhan 2	Adran 23	Archwiliad annibynnol
j314	Rhan 2	Adran 24	Mabwysiadu cynllun
j315	Rhan 2	Adran 31	Dyletswydd i ystyried pa un ai i adolygu cynllun
j316	Rhan 2	Adran 32	Adolygu cynllun
j317	Rhan 2	Adran 33	Diwygio cynllun
j318	Rhan 2	Adran 34	Dirymu cynllun
j319	Rhan 2	Adran 25	Pŵer i gyfarwyddo awdurdod i addasu cynllun
j320	Rhan 2	Adran 26	Pŵer i gyfarwyddo awdurdod i gyflwyno cynllun i'w gymeradwyo
j321	Rhan 2	Adran 27	Pŵer i gyfarwyddo awdurdod i dynnu cynllun yn ôl
j322	Rhan 2	Adran 28	Tynnu cynllun yn ôl pan nad oes cyfarwyddyd
j323	Rhan 2	Adran 29	Pwerau diofyn Gweinidogion Cymru
j324	Rhan 2	Adran 36	Arfer swyddogaethau ar y cyd gan awdurdodau cynllunio
j325	Rhan 2	Adran 37	Trefniadau ar y cyd rhwng awdurdodau cynllunio yn dod i ben
j327	Rhan 2	Adran 38	Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod sy'n gwneud cynllun dalu costau archwiliad annibynnol
j328	Rhan 2	Adran 30	Eithrio sylwadau penodol sy'n ymwneud â phriffyrdd a threfi newydd
j330	Rhan 2	Adran 39	Corfforaethau datblygu trefol
j331	Rhan 2	Adran 40	Canllawiau
j332	Rhan 2	Adran 35	Adroddiad monitro blynyddol
j333	Rhan 2	Adran 41	Rheoliadau ynghylch arfer swyddogaethau mewn perthynas â chynlluniau
j335	Rhan 2	Adran 11	Datblygu cynaliadwy
j401	Rhan 1	Adran 3	Ystyr "datblygiad"
j402	Rhan 3	Adran 99	Yr adeg pan fydd datblygiad yn dechrau
j403	Rhan 3	Adran 43	Caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer datblygiad
j404	Rhan 3	Adran 42	Trosolwg o'r Rhan hon
j405	Rhan 3	Adran 44	Pŵer Gweinidogion Cymru i roi caniatâd drwy orchymyn datblygu
j408	Rhan 3	Adran 45	Pŵer awdurdod cynllunio i roi caniatâd drwy orchymyn datblygu lleol
J408s	Atodlen	Atodlen 1	Gorchmynion datblygu lleol
j411	Rhan 3	Adran 46	Cwblhau datblygiad ar ôl tynnu caniatâd a roddir drwy orchymyn yn ôl
j412	Rhan 3	Adran 52	Gofyniad i geisydd ymgynghori a rhoi cyhoeddusrwydd cyn gwneud cais
j413	Rhan 3	Adran 53	Gwasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru
j414	Rhan 3	Adran 54	Gwasanaethau cyn gwneud cais: cofnodion a datganiad o wasanaethau
j415a	Rhan 3	Adran 56	Cais am ganiatâd cynllunio, cymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl etc.: gofynion cyffredinol
j415b	Rhan 3	Adran 57	Cais am ganiatâd cynllunio: datganiad dylunio a mynediad ac adroddiad ymgynghoriad cyn gwneud cais
j416	Rhan 3	Adran 60	Awdurdod cynllunio i roi hysbysiad nad yw cais yn ddilys

Rhif j	Rhan o'r Bil	Adran neu Atodlen	Enw'r adran neu'r Atodlen
j417	Rhan 3	Adran 61	Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad o annilysrwydd
j417a	Rhan 3	Adran 62	Penderfynu apêl yn erbyn hysbysiad
J417s	Atodlen	Atodlen 2	Apelau o dan adran 61[j417]: penderfynu gan arolygwyr
j429	Rhan 3	Adran 78	Opsiwn i wneud cais i Weinidogion Cymru
j430	Rhan 3	Adran 79	Dynodi awdurdod cynllunio at ddibenion adran 78
j431	Rhan 3	Adran 80	Opsiwn i wneud cais i Weinidogion Cymru: ceisiadau cysylltiedig
j432	Rhan 3	Adran 81	Pwerau i osod gofynion mewn perthynas â cheisiadau i Weinidogion Cymru
j433	Rhan 3	Adran 65	Rhoi hysbysiad o geisiadau i gynghorau cymuned
j434	Rhan 3	Adran 82	Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â cheisiadau cynllunio a wneir i Weinidogion Cymru
j434a	Rhan 3	Adran 83	Gwasanaethau cyn gwneud cais a phenderfynu ceisiadau: swyddogaethau arolygwyr
J434s	Atodlen	Atodlen 4	Ceisiadau i Weinidogion Cymru: arfer swyddogaethau gan arolygwyr
j436	Rhan 3	Adran 58	Hysbysiad o gais am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl
j436a	Rhan 3	Adran 59	Awdurdod cynllunio i beidio ag ystyried cais annyls
j437	Rhan 3	Adran 111	Cofrestr o orchmynion datblygu lleol, ceisiadau cynllunio etc.
j438	Rhan 3	Adran 66	Ystyriaethau cyffredinol sy'n berthnasol i benderfynu ceisiadau
j439	Rhan 3	Adran 70	Pŵer i wrthod ystyried ceisiadau tebyg
j440	Rhan 3	Adran 71	Pŵer i wrthod ystyried cais a wneir ar ôl dyroddi hysbysiad gorfodi
j441	Rhan 3	Adran 63	Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â cheisiadau: cyffredinol
j442	Rhan 3	Adran 69	Hysbysiadau penderfynu
j443	Rhan 3	Adran 97	Hysbysiad o ddechrau a chynnal datblygiad
j445	Rhan 3	Adran 67	Rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio a gosod amodau
j445a	Rhan 3	Adran 96	Hyd caniatâd mwynau
J445b	Atodlen	Atodlen 5	Amod sy'n cyfyngu ar hyd caniatâd mwynau
J445s	Atodlen	Atodlen 3	Amodau sy'n ymwneud â gweithrediadau mwyngloddio a dyddodi gwastraff
j446	Rhan 3	Adran 68	Penderfynu ceisiadau i ddatblygu heb gydymffurfedd ag amodau blaenorol
j447	Rhan 3	Adran 49	Caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a gynhaliwyd eisoes
j449	Rhan 3	Adran 91	Budd caniatâd cynllunio
j451	Rhan 3	Adran 72	Atgyfeirio cais at Weinidogion Cymru
j452	Rhan 3	Adran 73	Yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio neu fethiant awdurdod cynllunio i wneud penderfyniad
j452a	Rhan 3	Adran 74	Y weithdrefn ar gyfer gwneud apêl
j452b	Rhan 3	Adran 75	Cyfyngiad ar amrywio cais ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl
j453	Rhan 3	Adran 76	Penderfyniad ar gais ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl
j454	Rhan 3	Adran 77	Penderfynu apêl

Rhif j	Rhan o'r Bil	Adran neu Atodlen	Enw'r adran neu'r Atodlen
j457	Rhan 3	Adran 87	Awdurdodiad ar gyfer datblygiad gan awdurdodau lleol ac ymgwymerwyr statudol
j458	Rhan 3	Adran 93	Amod ynghylch y cyfnod y mae rhaid i ddatblygiad ddechrau ynddo
j459	Rhan 3	Adran 94	Amodau caniatâd cynllunio amlinellol
j461	Rhan 3	Adran 98	Pŵer i wneud gorchymyn terfynu
J461s	Atodlen	Atodlen 6	Gorchymynion terfynu
j464	Rhan 3	Adran 100	Pŵer awdurdod cynllunio i wneud newid ansylweddol i ganiatâd cynllunio
j465	Rhan 3	Adran 102	Pŵer i wneud gorchymyn sy'n addasu neu'n dirymu caniatâd cynllunio
J465s	Atodlen	Atodlen 7	Gorchymynion sy'n addasu neu'n dirymu caniatâd cynllunio
j469	Rhan 3	Adran 101	Darpariaeth bellach ynghylch ceisiadau am newidiadau ansylweddol
